

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau
Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Lesley Griffiths
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
17 Rhagfyr 2020

RHAN 1

1. Disgrifiad

Cafodd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ("ETS") ei sefydlu gan Orchymyn y Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 (y "prif Orchymyn") fel cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr i'r DU gyfan er mwyn annog y sectorau pŵer a hedfan, a diwydiant, i leihau allyriadau mewn modd costeffeithiol. Mae wedi'i ddylunio ar y cyd gan Lywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, a bydd yn cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau'r DU a'r nod o ran sero-net, yn ogystal â'r targedau lleihau allyriadau yma yng Nghymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaethau pellach ar gyfer ETS y DU, yn benodol o ran dyrannu lwfansau am ddim a chofrestrfa ar gyfer ETS y DU.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae Rhan 3 o Atodlen 3 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn nodi bod rhaid sefydlu cynllun masnachu allyriadau sy'n berthnasol i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon – fel yn yr achos hwn – drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Rhagnodir gweithdrefn briodol ar gyfer Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn adran 48 o'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd. Gan nad yw'r offeryn hwn yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau y gallent fod wedi'u cynnwys yn adran 48(3) o'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd, mae'r weithdrefn negyddol wedi cael ei defnyddio.

Bydd Senedd y DU yn craffu ar y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, felly ni ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol creu neu osod yr offeryn hwn yn ddwyieithog.

Gosodir y Gorchymyn hwn, a ddaw i rym ar 31 Rhagfyr 2020, gan dorri'r rheol 21 diwrnod, sef y confensiwn na ddylid gosod offeryn gerbron y Senedd lai na 21 diwrnod cyn y daw i rym. Gwnaed y Gorchymyn ar 16 Rhagfyr 2020, dyddiad cyfarfod cyntaf y Cyfrin Gyngor ar ôl y cyfarfod lle gwaned y prif Orchymyn, a chafodd ei osod cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl hynny. Ystyrir bod dyddiad dod i rym hwyrach yn amhosibl am ddau reswm. Yn gyntaf, er mwyn sicrhau na fydd oedi yn y rhwymedigaethau ar weithredwyr safleoedd sy'n ymwneud â monitro data at ddibenion dyrannu am ddim. Mae hyn yn osgoi ansicrwydd i gyfranogwyr ac yn sicrhau proses bontio ddiraffferth o System Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd i ETS y DU. Yn ail, mae angen dadwneud dirymiad arfaethedig o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/331 ("y Rheoliad Dyrannu am Ddim") drwy reoliad 62 o Reoliadau'r Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019, sy'n dod i rym ar ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu. Gwnaed yr offeryn fel rhan o baratodau "ymadael heb gytundeb" blaenorol Llywodraeth y DU yng ngwanwyn 2019.

Mae tri mater arall yr hoffem eu dwyn i sylw'r Pwyllgor. Yn gyntaf, mae paragraff 6(1) o'r Atodlen 5A newydd i'r prif Orchymyn yn rhoi'r pŵer i weinyddwr y gofrestrfa sefydlu "trefniadau a rheolau gweinyddol" ar gyfer gweinyddu'r gofrestrfa. Mae paragraff 16(9) o'r Atodlen honno'n nodi'n glir beth mae'r rheolau gweinyddol arfaethedig yn debygol o'i gynnwys. Mae'r Adran yn ystyried bod adran 90(3) o'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd yn cōynnwys y pŵer i wneud darpariaeth o'r fath. Mae Gorchymyn Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon 2013, a wnaed o dan adran 90(3) o'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd hefyd, yn cynnwys darpariaeth debyg ar gyfer trefniadau a rheolau gweinyddol: gweler erthyglau 50(4) a 53(1)(a) o'r Gorchymyn hwnnw.

Yn ail, mae paragraff 6 o Atodlen 2 i'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd yn mynnu bod deddfwriaeth a wneir wrth arfer y pwerau galluogi yn darparu na all lwfansau a ddefnyddir gan gyfranogwr at ddibenion cynllun masnachu gale eu defnyddio gan y cyfranogwr at unrhyw ddiben arall. Mae'r diffiniad o "ildio" yn erthygl 4(1) o'r prif Orchymyn, a oedd yn cynnwys darpariaeth o'r fath, yn cael ei ddiwygio gan yr offeryn hwn; ac mae paragraff 24(2) o'r Atodlen 5A newydd i'r prif Orchymyn bellach yn cynnwys y gofyniad hwnnw.

Yn drydydd, wrth lunio'r prif Orchymyn drafft, roedd yr Adran yn rhag-weld y byddai Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/2067 ("Rheoliad Dilysu 2018") yn gyfraith yr UE a ddargedwir ond na fyddai Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/2066 ("Rheoliad Monitro ac Adrodd 2018") yn cael ei ddargadw ac, felly, bod angen gwahanol ddulliau drafftio ar gyfer ymgorffori rheolau o'r mesurau hyn yn ETS y DU. Fodd bynnag, mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud newid mewn cysylltiad â Rheoliad Dilysu 2018, gan gael gwared ar y gwahaniaeth. Roedd hyn yn cyd-fynd â'r disgwyliad, wedi gweld deddfwriaeth ddrafft yr UE gyda diwygiadau yn ymwneud â dyrannu am ddim, a fydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2021, na fyddai'r fersiwn o Reoliad Dilysu 2018 yr oeddem am ei defnyddio ar gyfer ETS y DU yn gyfraith yr UE a ddargedwir. Yn anffodus, yn y pen draw, ni chwblhawyd diwygiadau'r UE mewn pryd i'r Gorchymyn hwn gyfeirio atynt. Er hynny, rydym wedi cadw at y dull drafftio newydd ar gyfer Rheoliad Dilysu 2018, gan weithredu'r fersiwn wreiddiol â diwygiadau at ddibenion ETS y DU yn hytrach na gweithredu'r fersiwn ddiwygiedig yr oeddem yn ei disgwyl, yn seiliedig ar y ffaith y gallai hwyluso diwygiadau diweddarach a allai fod yn ddymunol er mwyn adlewyrchu cynllun yr UE (er enghraifft yng nghyd-destun unrhyw gysylltu).

3. Y cefndir deddfwriaethol

Roedd y prif Orchymyn yn sefydlu ETS y DU, a fydd yn weithredol o 1 Ionawr 2021 ymlaen. Roedd y darpariaethau allweddol yn y prif Orchymyn yn ymwneud â hyd a lled y cynllun, y gofynion monitro ac adrodd, y cap (cyfanswm lefel yr allyriadau a ganiateir) a'r trywydd (cyfradd gostwng y cap), a rolau'r rheoleiddwyr yn monitro a gorfodi rheolau'r cynllun.

Y prif Orchymyn oedd y cyntaf mewn pecyn deddfwriaethol a oedd wedi'i ddylunio i gyflenwi ETS y DU y gellir ei roi ar waith erbyn diwedd y Cyfnod Pontio, gan sicrhau na fydd bwlch prisiau carbon yn dod i'r amlwg pan fydd y DU yn rhoi'r gorau i gymryd rhan yn ETS yr UE. Gallai bwlch prisiau carbon arwain at gynnydd mewn allyriadau a pheryglu ein gallu i fodloni'r Gyllideb Garbon, a chyrraedd ein targedau lleihau allyriadau.

Y Gorchymyn hwn yw'r ail offeryn yn y pecyn. Ymysg pethau eraill, mae'n darparu ar gyfer dyrannu lwfansau am ddim a chofrestrfa ar gyfer ETS y DU. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r prif Orchymyn, y Rheoliad Dyrannu am Ddim a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1842, y cyfeirir ato yn y Gorchymyn fel y "Rheoliad Newidiadau i Lefelau Gweithgarwch", offeryn arall gan yr UE a ddeddfwyd ar gyfer ETS yr UE a fydd yn rhan o gyfraith ddomestig ar ôl diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu, a chaiff ei fabwysiadu at ddibenion ETS y DU.

Y trydydd offeryn yn y pecyn fydd y rheoliadau a wneir o dan adran 96 o Ddeddf Cyllid 2020 i sefydlu rheolau ar gyfer arwerthu lwfansau a mecanweithiau i gefnogi sefydlogrwydd y farchnad¹. Daw hyn i rym yn chwarter cyntaf 2021.

Yn ogystal â hynny, bydd offeryn pellach a fydd yn diwygio deddfwriaeth gwasanaethau ariannol yn cael ei osod ar ffurf drafft gerbron Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Bydd yr offeryn statudol hwn yn nodi'r rheoliadau ar gyfer masnachu lwfansau yn ETS y DU. Bydd yn gosod rôl oruchwylio i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn cyfraith ac yn sicrhau bod lwfansau ETS y DU yn destun yr un goruchwyliaeth a thriniaeth reoleiddiol berthnasol ag offerynnau ariannol. Daw hyn i rym yn chwarter cyntaf 2021.

Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei bod yn fodlon ystyried cyswllt rhwng ETS y DU ac ETS yr UE, os yw cytundeb cysylltu er budd y ddwy ochr ac yn cydnabod bod y ddau barti'n gyfartal yn sofran. Gallai cyswllt rhwng ETS y DU ac ETS yr UE helpu i sefydlu marchnad garbon fwy o lawer, a allai gynyddu'r cyfleoedd i leihau allyriadau ac i fasnachu allyriadau mewn modd costeffeithlon. Mae cyflenwi ETS y DU drwy'r pecyn deddfwriaethol hwn yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddwn yn gallu sicrhau cytundeb cysylltu â'r UE drwy drafod. Byddai angen am ddeddfwriaeth bellach i gyflawni unrhyw gyswllt rhwng ETS y DU ac ETS yr UE.

¹ Mae paragraff 5(4) o Atodlen 2 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn atal deddfwriaeth a wneir o dan y Ddeddf rhag darparu ar gyfer dyrannu lwfansau yn gyfnewid am gydnabyddiaeth.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Prif bwrpas y Gorchymyn hwn yw darparu ar gyfer dyrannu lwfansau am ddim a chofrestrfa ar gyfer ETS y DU.

Mae rychwant tiriogaethol y Gorchymyn hwn yn cynnwys Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Gorchymyn yn effeithio ar ddiwydiant a'r sectorau pŵer ac awyrennau.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â dyrannu lwfansau am ddim ac â chofrestrfa ETS y DU, fel a ganlyn:

Dyrannu lwfansau am ddim

Mae'r Gorchymyn yn darparu y gellir rhoi lwfansau am ddim i'r cyfranogwyr yn ETS y DU sy'n wynebu'r risg fwyaf o "ollyngiadau carbon".

Ceisiadau ar gyfer dyraniadau am ddim ar gyfer 2021-2026

Mae'r Gorchymyn yn darparu y bydd unrhyw geisiadau ar gyfer dyraniadau am ddim a wneir gan safleoedd yn y DU ar gyfer cyfnod dyrannu 2021-2026 o dan ETS yr UE yn cael eu trin fel ceisiadau o dan ETS y DU. Mae hyn yn golygu nad oes yn rhaid i weithredwyr ailgyflwyno unrhyw wybodaeth i Awdurdod y DU, sy'n cefnogi proses bontio ddiraffferth ymhellach.

Meincnodau

Mae'r cyfrifiad a ddefnyddir i bennu sawl lwfans am ddim a ddyfernir i bob cyfranogwr cymwys yn ETS y DU yn ystyried pa mor llygrol yw'r allyrrydd o'i gymharu â'i gystadleuwyr sy'n perfformio orau: y meincnod yw enw'r paramedr hwn ac mae meincnod ar wahân ar gyfer pob gweithgaredd sy'n gymwys i gael dyraniad am ddim. Dylai meincnodi lwfansau am ddim yn y modd hwn annog gweithredwyr llai effeithlon i wella eu perfformiad, a gwobrwyo'r rhai sy'n perfformio'n dda.

Rhestr gollyngiadau carbon

Rhan arall o'r gwaith o gyfrifo'r hawl i ddyraniadau am ddim yw a ydy'r safle dan sylw yn perfformio proses (ee cynhyrchu sment) yr ystyrir ei bod yn wynebu risg o ollyngiadau carbon. Mae prosesau yr ystyrir eu bod yn wynebu risg o ollyngiadau carbon wedi'u rhestru ar y Rhestr Gollyngiadau Carbon a byddant yn cael eu hawl lawn i ddyraniadau am ddim.

Cyfranogwyr newydd

Mae'r Gorchymyn hefyd yn datgan, eto gan adlewyrchu'r dull gweithredu yn ETS yr UE i ddarparu proses bontio ddiraffferth i fusnesau, y bydd cyfran o lwfansau ar gael i gyfranogwyr newydd yn ETS y DU, ac i weithredwyr presennol sy'n cynyddu eu gweithgareddau. Y Gronfa Newydd-ddyfodiaid yw enw hon.

Newidiadau i Lefelau Gweithgarwch

Yn ETS yr UE, o 2021 ymlaen, ar ôl cyfrifo'r dyraniadau am ddim yn y lle cyntaf yn 2021, byddant yn cael eu hailgyfrifo'n flynyddol ar sail unrhyw newidiadau sylweddol i'r lefelau cynhyrchu, fel y nodir yn yr Adroddiadau Lefelau Gweithgarwch blynyddol a gyflwynir gan y gweithredwyr. Bwriad hyn yw sicrhau na all gweithredwyr gael mwy o lwfansau yn berthynol i'w hallyriadau drwy ddim ond lleihau faint maent yn eu cynhyrchu. Bydd ETS y DU yn adlewyrchu'r dull deinamig hwn o gyfrifo dyraniadau am ddim, ac mae'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer hynny.

Ffactorau cywiro a lleihau

Mae cyfanswm y dyraniadau yr ydym yn eu rhoi am ddim yn lleihau dros amser er mwyn cymell lleihad mewn allyriadau, ac mae nifer o ffactorau sy'n sicrhau'r lleihad hwn. Defnyddir ffactor cywiro ar draws sectorau (CSCF) os yw cyfanswm y dyraniad am ddim i gynhyrchwyr di-drydan yn fwy na'r swm cyfyngedig o lwfansau y gellir eu rhoi am ddim i safleoedd sefydlog, sef yr hyn a elwir yn "cap y diwydiant". Mae dyraniad am ddim safleoedd cynhyrchu trydan yn gostwng yn ôl y Ffactor Lleihau Liniarol, a nodir yn y Gorchymyn hwn, os yw'r CSCF yn berthnasol.

Ceisiadau am ddyraniad am ddim a'r trefniadau eithrio

Mae Erthygl 4(4) o'r Rheoliad ar Ddyrannu am Ddim yn darparu bod gweithredwr safle presennol yn gwneud cais am ddyraniad am ddim ar gyfer cyfnod dyrannu 2026-2030 ar yr un pryd ag y bydd yn gwneud cais am statws naill ai fel ysbyty neu allyrnydd bach neu allyrnydd isel iawn ar gyfer y cyfnod dyrannu, hy fel rhan o'r cynlluniau eithrio. Os na fydd y cais i fod yn un o'r cynlluniau optio allan yn llwyddo, ond bod y cais am ddyraniad am ddim yn llwyddo, gwneir dyraniad am ddim yn y ffordd arferol.

Mae'r dull gweithredu ar gyfer polisi dyrannu am ddim ar gyfer y sector awyrennau yn debyg i'r dull gweithredu yn ETS yr UE, yn enwedig er mwyn sicrhau proses bontio didrafferth i'r llawer o weithredwyr awyrennau a fydd yn parhau i gymryd rhan yn ETS yr UE ar ôl y Cyfnod Pontio. Mae'r diwygiadau i'r offeryn yn cynnwys creu proses ar gyfer gwneud cais am ddyraniadau am ddim i ETS y DU ar gyfer y sector, yn ogystal ag yn diffinio methodoleg dyrannu am ddim sy'n adlewyrchu gweithgarwch hanesyddol gweithredwyr awyrennau ar deithiau sy'n cael eu cwmpasu gan ETS y DU ar gyfer cyfnod dyrannu 2021-2025. Rydym yn adolygu dyraniad am ddim ar gyfer y sector awyrennau, gan ystyried cystadleurwydd a'n hymrwymadau domestig a rhyngwladol i'r hinsawdd, ac mae'n debyg y bydd unrhyw newid yn cael ei roi ar waith erbyn dechrau 2024.

Y Gofrestrfa

Mae'r dull gweithredu ar gyfer polisi'r gofrestrfa yn debyg i'r dull a ddefnyddir yn ETS y DU; felly bydd cyfranogwyr yn gyfarwydd â'r broses. Mae Atodlen 5A newydd i'r prif Orchymyn yn sefydlu ETS y DU, ac mae'n gwneud darpariaeth gysylltiedig, gan gynnwys ar sut i agor/cau cyfrifon, cael mynediad i'r gofrestrfa ac atal cyfrifon. Bydd y gofrestrfa yn llwyfan ar-lein, fel banc ar-lein, a fydd yn cadw golwg ar lwfansau ETS y DU sy'n cael eu dal gan y cyfranogwyr. Y

gofrestrfa yw'r unig lwyfan sy'n gallu dal lwfansau y gellir eu trosglwyddo rhwng cyfrifon gwahanol. Bydd swyddogaeth y gofrestrfa yn golygu na fydd trosglwyddiadau'n cael eu cwblhau ar unwaith, er mwyn lliniaru yn erbyn pryderon posibl o ran twyll a diogelwch. Ochr yn ochr ag olrhain lwfansau, mae'r gofrestrfa hefyd yn cadw golwg ar gyfranogwyr ETS y DU, eu hallyriadau y mae modd eu cofnodi, ac ildio lwfansau gan y cyfranogwyr hyn. Mae'r system hon wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd ac mae ar y trywydd iawn i fod yn barod ar gyfer mis Ionawr 2021.

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu i awdurdod ETS y DU roi (creu) lwfansau yn unol â'r cap; creu a chadw cyfrifon canolog i sicrhau bod polisi dyrannu, arwerthu a sefydlogrwydd y farchnad yn cael ei gyflawni; ac atal y gofrestrfa mewn ymateb i fygythiadau diogelwch ac ar gyfer diweddariadau technegol. Ar ben hynny, gall gweinyddwr y gofrestrfa gael cyfarwyddyd gan awdurdod ETS y DU i gymryd camau penodol a gweinyddwr y gofrestrfa sy'n gyfrifol am weinyddu'r gofrestrfa.

Mae erthygl 8A newydd o'r prif Orchymyn yn diffinio "gweinyddwr y gofrestrfa" fel pob un o'r pum corff sy'n "rheoleiddwyr" fel y'u diffinnir yn erthygl 9. Yn ymarferol, y bwriad yw i Asiantaeth yr Amgylchedd arfer swyddogaethau gweinyddwr y gofrestrfa ar ran y cyrff eraill. Bydd hyn yn cael ei gyfleu i ddeiliaid cyfrif drwy arweiniad a gohebiaeth. Hefyd, bydd angen i unrhyw hysbysiadau/penderfyniadau a gymerir gan weinyddwr y gofrestrfa fod yn glir ynghylch pa gorff wnaeth y penderfyniad hwnnw. Bydd hyn yn galluogi deiliaid cyfrifon i wybod pa gorff i apelio yn ei erbyn.

Bydd yn rhaid i weithredwyr a gweithredwyr awyrennau ddal cyfrif cofrestrfa, a gall masnachwyr agor cyfrif i gymryd rhan yn y farchnad lwfansau ar delerau y cytunir arnynt gan weinyddwr y gofrestrfa. Os na all deiliad cyfrif fynd i'r gofrestrfa drwy ei ddefnyddiwr cofrestrfa awdurdodedig ("cynrychiolydd awdurdodedig") sy'n mewngofnodi i'r system, gall roi cyfarwyddyd i weinyddwr y gofrestrfa gymryd camau ar ei ran.

Mae gweinyddwr y gofrestrfa yn gallu rhoi hysbysiadau gorfodi o dan erthygl 44 o Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 am dorri gofynion sy'n ymwneud â gweinyddwr y gofrestrfa a gynhwysir yn Atodlen 5A neu a osodir arno, er enghraifft, dyletswydd deiliad cyfrif i ddarparu manylion prif gyswllt o dan baragraff 15 o'r Atodlen honno ac i gydymffurfio â hysbysiadau gwybodaeth a roddir gan weinyddwr y gofrestrfa o dan erthygl 75. Os na chydymffurfir â hysbysiad gorfodi a roddir gan weinyddwr y gofrestrfa, y bwriad yw y caiff unrhyw reoleiddiwr o dan erthygl 47 osod unrhyw gosb sifil mewn cysylltiad â'r toriad o dan erthygl 65.

Yn ogystal, mae rhai newidiadau mewn perthynas â'r rheolau ar fonitro, adrodd a gwirio allyriadau, yn bennaf i gefnogi'r rheolau ar ddyrannu am ddim. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau hefyd yn rhagweld newidiadau tebygol ar lefel yr UE i Reoliad Monitro ac Adrodd 2018 a Rheoliad Dilysu 2018, maent yn casglu ynghyd mewn un lle yr addasiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer cymhwyso Rheoliad Gwirio 2018 yng nghyd-destun ETS y DU.

5. Ymgynghori

Mae manylion yr ymgynghoriad wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn Rhan 2, isod.

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Cafodd Aseiad Effaith Rheoleiddiol o Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn ei gyfanwydd ei gynnwys yn yr ME/Aseiad Effaith Rheoleiddiol a osodwyd ochr yn ochr â Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020. Mae ar gael yma (Saesneg yn unig):

<https://senedd.wales/laid%20documents/sub-ld13345-em/sub-ld13345-em-w.pdf>